***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 8

## YMDDIRIEDOLAETHAU

*Ymddiriedolwyr perthnasol: ymholiadau ac asesiadau*

9 (1) Os yw ACC yn dyroddi hysbysiad ymholiad ynghylch y ffurflen dreth o dan adran 43 o DCRhT—

(a) rhaid dyroddi'r hysbysiad i bob un o'r ymddiriedolwyr perthnasol y gŵyr ACC pwy ydynt;

(b) mae pwerau ACC o dan Ran 4 o DCRhT i wneud dogfennau a gwybodaeth yn ofynnol at ddibenion yr ymholiad yn arferadwy ar wahân (ac yn wahanol) mewn perthynas â phob un o'r ymddiriedolwyr perthnasol;

(c) caiff unrhyw un neu ragor o'r ymddiriedolwyr perthnasol wneud cais o dan adran 51 o DCRhT am gyfarwyddyd bod hysbysiad cau i'w ddyroddi (ac mae gan bob un ohonynt yr hawl i fod yn bartïon i'r cais);

(d) rhaid dyroddi unrhyw hysbysiad cau o dan adran 50 o DCRhT i bob un o'r ymddiriedolwyr perthnasol y gŵyr ACC pwy ydynt.

(2) Rhaid i ddyfarniad ACC o dan adran 52 o DCRhT sy'n ymwneud â'r trafodiad gael ei wneud yn erbyn yr holl ymddiriedolwyr perthnasol ac nid yw'n cael effaith yn erbyn unrhyw un ohonynt oni bai bod hysbysiad amdano yn cael ei ddyroddi i bob un ohonynt y gŵyr ACC pwy ydynt.

(3) Rhaid i asesiad ACC o dan adran 54 neu 55 o DCRhT sy'n ymwneud â'r trafodiad gael ei wneud mewn cysylltiad â'r holl ymddiriedolwyr perthnasol ac nid yw'n cael effaith mewn cysylltiad ag unrhyw un ohonynt oni bai y dyroddir hysbysiad amdano o dan adran 61 o DCRhT i bob un ohonynt y gŵyr ACC pwy ydynt.